OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 206

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

## RHAN 8

Gofynion o ran hysbysiadau: iechyd planhigion

**Gofynion o ran hysbysiadau mewn perthynas â phlanhigion a chynhyrchion planhigion eraill**

**26.**—(1) Rhaid i weithredwr proffesiynol sy'n dod ag unrhyw un neu ragor o'r planhigion neu'r cynhyrchion planhigion a ganlyn i Gymru, cyn y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru neu heb fod yn hwyrach na phedwar diwrnod ar ôl y dyddiad y maent yn cyrraedd Cymru, roi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd iechyd planhigion ynglŷn â'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)—

(a) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Olea europaea* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L. a fwriedir i'w plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall,

(b) planhigion *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Olea europaea* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Prunus* L., *Quercus* L. neu *Ulmus* L. a fwriedir i'w plannu, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yn y Swistir ac nad yw Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddynt, neu

(c) pren tanwydd solet o Aelod-wladwriaeth arall, neu bren tanwydd solet o drydedd wlad nad yw Erthygl 47(1) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys iddo.

(2) Dyma'r materion—

(a) y dyddiad y disgwylir i'r llwyth gyrraedd neu, os yw'r llwyth wedi cyrraedd Cymru, y dyddiad y cyrhaeddodd Gymru gyntaf;

(b) cyrchfan arfaethedig y llwyth, neu os yw'r llwyth wedi cyrraedd ei gyrchfan arfaethedig yng Nghymru, ei leoliad presennol;

(c) genws, rhywogaeth a nifer y planhigion neu'r pren yn y llwyth;

(d) y wlad y traddodwyd neu y traddodir y planhigion neu'r pren ohoni;

(e) yn achos planhigion y bwriedir eu plannu, rhif adnabod cyflenwr y planhigion;

(f) yn achos pren tanwydd solet—

(i) cyfeiriad y traddodwr, a

(ii) manylion unrhyw driniaethau ffytoiechydol a roddwyd i'r pren.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "pren tanwydd solet" yw pren tanwydd ar ffurf logiau, plociau, brigau, ffagodau neu ffurfiau tebyg eraill.